OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1621 (Cy. 153)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon) i Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth), Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Mehefin 2013* |
| *Yn dod i rym* | *3 Gorffennaf 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Gorffennaf 2013. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon) i Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth), Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 3 Gorffennaf 2013 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the road*”) yw’r darnau hynny o gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon) a Chyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth), Gwynedd, fel a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Gwaharddiad a Chyfyngiadau

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o’r fath gael ei reidio ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

### Cymhwyso

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a’r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

### Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Mehefin 2013

*R Morgan*

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### Gwaharddiad dros dro ar gerbydau, beicwyr pedal a cherddwyr

Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gorllewin o ddechrau'r trwyniad lle y mae'r ffordd ymadael tua'r gorllewin yn ymrannu oddi wrth brif gerbytffordd yr A55 wrth Gyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon i bwynt sy'n 200 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth.

Y darn cyfan hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon.

Y darn cyfan hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth.

## ATODLEN 2

### Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt sy'n 1400 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 10, Cyfnewidfa Heol Caernarfon hyd at ganolbwynt Cyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon.

Y darn cyfan hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon.

Y darn cyfan hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth.